

## Grŵp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant y Sector Gwirfoddol

6 Medi 2022, 10am-12pm

Nodiadau

### Mynychwyr

- Kate Young, Fforwm Cymru Gyfan
- Wynne Roberts, Cyngor Rhyng-ffydd
- Lewis Clark, Tŷ Hafan
- Kate Griffiths, Y Groes Goch
- Claire Morgan, Gofalwyr Cymru
- Tracy Jones, Tŷ Hafan
- Gemma Lelliot, Cymdeithas Cludiant Cymunedol (CTA UK)
- Debbie Shaffer, Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
- Simon Jones, Mind
- Jas Bains, Hafod
- Neil Williams, Gofal a Thrwsio
- Rachel Rowlands, Age Concern Morgannwg
- Fiona Reid, Anabledd Dysgu Cymru
- Bethan Jenkins, Llywodraeth Cymru
- Selima Bahadur, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)
- Clair Swales, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO)
- Helen Smith, St John's Cymru
- Sharon Richards, Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT)
- Uzo Iwobi, Cyngor Hil Cymru
- Sarah Lusty, Llywodraeth Cymru
- Matt Jenkins, Llywodraeth Cymru
- Judith Stone, CGGC
- Johanna Davies, CGGC
- Suzanne Mollison, CGGC
- David Cook, CGGC

### Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion.

### Ailgydbwysu gofal a gwaith y Grŵp Technegol Cenedlaethol – Sarah Lusty a Bethan Jones-Edwards, Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Bethan (Pennaeth Dyfodol Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru) gyflwyniad. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth yn gosod safonau ar gyfer arferion comisiynu; yn lleihau cymhlethdod; ac yn ail-gydbwysu comisiynu er mwyn canolbwyntio ar ganlyniadau. Bydd y Cod Ymarfer yn cael ei adolygu bob dwy flynedd. Bydd Swyddfa Genedlaethol, pan gaiff ei sefydlu, yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol. Mae gan y Grŵp Technegol ffrwd waith hefyd sy'n canolbwyntio ar gryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol. Erbyn diwedd mis Hydref, bydd argymhellion gan y Grŵp Technegol yn cael eu hanfon at Weinidogion i gytuno ar gynnwys y Fframwaith.

Trafododd y grŵp broblemau o ran gwaith integredig, a bod y sector yn cael ei weld fel partner allweddol mewn darparu gwasanaethau, ond yn cael ei drin yn aml fel partner iau. Trafododd y grŵp fesurau atebolrwydd i sicrhau bod y sector gwirfoddol yn cael ei drin yn gyfartal. Nododd Bethan fod fframwaith ar gyfer monitro gweithrediad y Fframwaith Cenedlaethol, gan gynnwys hyn, yn cael ei ystyried, ond nad oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud ar hyn eto. Dywedodd Rachel na all cynrychiolwyr unigol o'r sector siarad ar ran yr holl sector gwirfoddol bob amser ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Bu trafodaeth am yr heriau a wynebir gan fudiadau gwirfoddol o ran cael mynediad i'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF), gan gynnwys trefniadau cyllido tymor byr i wasanaethau sydd wedi bodoli ers blynnyddoedd ac a ellid eu hystyried yn ddarpariaeth gwasanaeth 'craidd'. Cydnabu fod cyllideb £146 miliwn yr RIF dim ond yn gyfran fechan iawn o'r gyllideb gyffredinol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae angen gwell dealltwriaeth o lawer o sut y dyrennir adnoddau i'r trydydd sector drwy gyllidebau prif ffrwd, ynghyd â ffrydiau cyllido ategol e.e. yr RIF, er mwyn asesu sut mae'r syniad o'r trydydd sector fel 'partner allweddol' yn cymharu â'r darlun go iawn.

Nododd Bethan fod trafodaethau yn parhau ar yr Argyfwng Costau Byw a'r Fframwaith Cenedlaethol.

Nododd y grŵp bwysigrwydd yr agenda gydraddoldeb ac y dylai fod yn ganolog wrth roi'r Fframwaith Cenedlaethol ar waith.

#### *Cam gweithredu*

- *Matt i rannu cynlluniau buddsoddi gan RPBs. CGGC i'w dosbarthu i'r grŵp.*

#### **Siaradwr: Pwysau'r Gaeaf – Matt Jenkins, Llywodraeth Cymru**

Nododd Matt y cynnydd yng nghyllidebau'r grŵp iechyd a gofal cymdeithasol yn dilyn Cyllideb y flwyddyn ddiwethaf, a'r sicrwydd ychwanegol a gynigir gan y Gronfa Fuddsoddi Refeniw. Er bod cyllid ychwanegol wedi'i roi gan Lywodraeth Cymru yn 2021/22 ar gyfer 'pwysau'r gaeaf', roedd hyn o ganlyniad i gyllid canlyniadol y DU, ac nid oes cyllid cyfwerth wedi'i gynnig eto eleni. Nododd fod Ystadegau Cymru yn caniatáu i bobl edrych ar batrymau gwario Awdurdodau Lleol unigol.

Trafododd y grŵp sut roedd 'pwysau'r gaeaf' yn teimlo mwy fel pwysau systemig a deimlir drwy gydol y flwyddyn bellach, er bod y gaeaf hwn yn debygol o fod yn anodd ofnadwy. Nododd Kate ei bod hi'n bwysig dylanwadu ar gynlluniau fel bod pobl yn cael eu hatal rhag bod mewn sefyllfaoedd brys, yn hytrach na dim ond ymdrin ag argyfyngau critigol wrth iddynt ddigwydd. Dywedodd Matt y bydd fframweithiau canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu o ran atebolrwydd, a bod Gweinidogion yn ymrwymedig i'r sector gwirfoddol.

Nododd Simon fod effeithiau iechyd meddwl yn ymddangos yn aml ar gwt argyfwng, felly rhaid i gynlluniau ymestyn y tu hwnt i ddiwedd y gaeaf. Ychwanegodd fod angen i'r sector cael ei weld fel rhan annatod o system iechyd a gofal cymdeithasol barhaus.

#### *Camau gweithredu*

- *Materion o'r drafodaeth hon i gael sylw yn y Cyfarfod Gweinidogol ar 26 Medi 2022.*
- *Johanna i gysylltu ag Uzo a Simon ynghylch sut mae sectorau llawr gwlad yn ymhél â'r prosesau comisiynu.*

## **Diweddariad ar y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol – Kate Young**

Mae argymhellion eang wedi'u datblygu ar gyflog teg, llais y dinesydd, cymunedau ac ati, ond ni ellir mynd i fanylder tan i Weinidogion eu cymeradwyo. Dylai hyn fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2022. Mae Bec Woolley wedi'i phenodi fel golygydd annibynnol argymhellion terfynol y grŵp. Disgwylir datganiad Gweinidogol yn yr hydref, gyda phroses ymgysylltu/ymgyngoriad â rhanddeiliaid ehangach perthnasol ar ôl hyn i helpu i drafod a datblygu unrhyw argymhellion ymhellach a'u troi'n gynllun gweithredu erbyn hydref 2023. Bydd hwn yn rhywbeth pwysig i'r grŵp hwn ganolbwyntio arno.

### *Cam gweithredu:*

- *CGGC i ddsbarthu gwybodaeth am yr arolwg safonau comisiynu yn y dyfodol.*

### **Unrhyw fater arall**

Nododd Kate ei rôl ar banel ynghylch rhyddhau cleifion o'r ysbyty yng Nghynhadledd Cydffederasiwn y GIG.

Bydd rhaglen atgyfnerthu COVID yn dilyn yr un fformat â'r llynedd.

### *Camau gweithredu*

- *Johanna i gysylltu ag ADSS a Chydffederasiwn y GIG i gael gwybod pa sesiynau fydd yn cael eu harwain gan y trydydd sector a phwy sy'n mynychu o'r trydydd sector. Gwybodaeth i'w rhannu â'r grŵp hwn.*
- *Rhaid cyflwyno'r sylwadau terfynol ar y papurau ar gyfer y Cyfarfod Gweinidogol erbyn 16 Medi. Gofynnir hefyd i aelodau gadarnhau eu bod yn gallu dod i'r cyfarfod â'r Gweinidog a Dirprwy Weinidogion, i siarad am ddwy eitem yr agenda.*